# Cyngor Cymuned Llanberis

***Cofnodion Cyfarfod Y Cyngor a gynhaliwyd ar y 14eg Mehefin 2023 am 19.00 yn Y Ganolfan, Llanberis.***

**1 Croeso'r Cadeirydd**

Croesawyd Cyngorwyr i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Nodwyd gan y Cadeirydd bod nifer faterion eisiau trafodaeth arno yn y cyfarfod ac fe ofynwyd bod y Cynghorwyr yn cynorthwyo drwy bod yn grnyno yn eu cyflwyniadau ble bosib.

Nodwyd gan y Cadeirydd bydd gwesteion o'r Parc Cenedlaethol ac Grwp GwyrddNi yn rhoi cyflwyniad byr i'r Cyngor yn ystod y cyfarfod.

**2 Presennol**

***Ward Padarn:*** Gwilym Evans (Is Gadeirydd y Cyngor Cymuned), Iwan Harding, Heather L Jones, Kevin Morris Jones, Nia Jones, Kim Jones, Louise Price, Helen Sharp. Rhys ap Gwilym, Emlyn Baylis,

***Ward Peris:*** Iola Owen, Llinos Haf Pritchard (Cadeirydd Y Cyngor Cymuned)

***Ymddiheuriadau:*** Trystan Tomos

Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc.) Barry Davies (Clarc Dynodedig.)

**3 Datgan Buddiant:**

Cofnodir, os yn berthnasol, o dan y gwahanol benawdau yn yr agenda.

**4 Cyflwyniad i'r Cyngor gan swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri.**

Croesawyd Ms Angela Jones a Ms Eta Trumper swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri i'r cyfarfod.

Cyfeirwyd at Cronfeydd Cymunedol Eryri a bod swyddog penodol wedi ei phenodi i'r swydd 'Swyddog Ymgysylltu Cymunedau'. Nodwyd gan y swyddog bod ffynhonnel grantiau ar gael i grwpiau a Chynghorau Cymuned ymgeisio amdanynt. Nodwyd bod £60K wedi ei glustnodi ar gyfer 2023/24. Byddai'r gronfa ar gyfer prsiectau gweddol sylweddol gyda gwerth y prosiect/grant rhwn £5K a £20K. Mae dyddiad cau y grant penodol hwn ar y 30ain Mehefin 2023. Mae'r ffenstr felly yn dyn iawn os yw grwpiau neu y Cyngor Cymuned am gyflwyno cais am grant eleni.

Nodwyd bod £80K wedi ei glustodi ar gyfer grantiau yn 2024/25 ac bod y ffensestr ymgeisio yn agor ar y 1af Ebrill 2024. Awgrymwyd efallai bod y ffenestr hon fwy oddi fewn gallu rhai grwpiau a'r Cyngor Cymuned i gyflwyno cais.

Nodwyd gan Gynghorydd y pwysicrwydd i rheadru'r wybodaeth am y granitau i grwpiau lleol a mundiadau eraill. Nodwyd gan Cadeirydd y Cyngor Cymuned y byddai yn paratoi rhestr o grwpiau lleol ble allai'r Cyngor Cymuned ei hysbysu o'r grantiau sydd ar gal dan y penawd 'Cronfeydd Cymunedau Eryri'. Bydd y Cadeirydd yn anfon y rhestr at y Clarc maes o law.
Cafwyd amlinelliad o'r prosiectau a fyddai yn cael ei ystyried am gymorth ariannol. Rhoddwyd engreifftiau fel Clwb Rygbi; Cae chware plant; Wal ddringo Harlech; Toiledau Cyhoeddus ac yn y blaen. Hyd yma, roedd 13 prosiect wedi derbyn cymorth. Nodwyd bod gwybodaeth berthnasol ar gael ar safle we y Parc Cenedlaethol neu drwy gysylltu drwy e-bost gan lythyru ac cronfacymunedoleryri@eryri.llyw.cymru

Nodwyd pwysicrwydd bod unrhyw gymorth ariannol Cronfa Llesiant Cymunedol yn gwneud gwahaniaeth oddi fewn cymunedau. Mae'r greant hwn ar gael at brosiectau gyda gwerth llawer is na'r gronfa fel y cyfeirwyd ato eisoes. Nodwyd bod uchafswm grant 'Cronfa Llesiant Cymunedol' yn

£500. Byddai yn addas a dilys ar gyfer meinciau eistedd; plannu perllan; rhandiroedd; llefydd picnic, hysbysfyrdd ac yn y blaen. Mae engreifftiau eraill ar gael ar salfe we y Parc Cenedlaethol.

Nodwyd na fod dyddiad cau i'r grant 'Cronfa Llesiant Cymunedol' ac na fod rhaid i bentref fod oddi fewn ffin y Parc Cenedlaethol ond bydd disgwyl bod y pentref yn ffinio yn agos iawn ar ffin y Parc Cenedlaethol.

Cyn cyflwyno cais, byddai rhaid bod grwp neu fudiad gyda Cyfrif Banc; Cyfansoddiad a gyda Polisi Iaith. Mae'r grant ar gael ar gyfer Cynghorau Cymuned ac Ysgolion lleol yn ogystal a mudiadau a grwpiau lleol.

Rhoddwyd byr gyflwyniad i'r Cyngor gan Ms Eta Trumper. Nodwyd llwyddiant ei gwaith gyda'r Parc Cenedlaethol. Nodwyd bod rhan pwysig o'r gwaith dydd i ddydd yn ymwneud a gwirfoddolwyr yn y Parc a bod cyfraniad gwirfoddolwyr yn werthfawr ac yn bositif dros ben.

Roedd gwaith llesiant hefyd yn rhan sylweddol ac yn rhan bwysig o'r swydd. Roedd yn trefnu a cynal teithiau cerdded, Terithiau coedlan i'r ifanc, sesiynnau Ioga ac yn y blaen. Mae'r holl wybodaeth ynglyn a chyfleon llesiant ar gael ar ei safle we.

Roedd y swyddog yn awyddus iawn i weld cynydd mewn nifer o wirfoddolwyr ac fe ofynwyd bod y Cyngor Cymuned yn ceisio cynorthwyo y nod hyn drwy dynnu sylw at cyfleon gwrifoddoli gyda'r Parc Cenedlaethol.

Cymerwyd y cyfle i holi swyddogion y Parc Cenedlaethol ar faterion eraill sydd yn achosi pryder yn lleol. Nodwyd rhain fel cyflwr difrifol waliau bwlch Llanberis. Diffyg rheolaeth ar barcio. Pryderon enfawr ynglyn a diffyg llwybr addas a diogel rhwng Nantperis a Gorffwysfa Uchaf.

Nodwyd er bod y llwybr pren wrth ochr y Brifforddd ym mwlch Llanberis yn gyfrifoldeb Cyngor Gwynedd gofynwyd i'r Parc Cenedlaethol gydweithio gyda Chyngor Gwynedd i sicrhau bod y llwybr yn cael ei gynnal a chadw ac yn cael ei ail agor er diogelwch cerddwyr a gyrrwyr cerbydau. Codwyd pryder hefyd ynglyna gwifren WiFi sydd wedi ei gosod wrth ochr cledrau tren Yr Wyddfa. Pryderwyd na fod y gwifren wedi ei gorchuddio dan ddaear yn unol a'r disgwyl.

Rhoddwyd addewid gan Ms Angela Jones y byddai yn ceisio ymatebion i'r pryderon ac fe fydd yn hysbysu'r Cyngor Cymuned o'r atebion ar ei cyfle cyntaf.

Rhoddwyd diolch gan y Cadeirydd i'r swyddogion am ei cyflwyniad gwerthfawr a diddorol.

**5 Cyflwyniad i'r Cyngor gan Lowri Vaughan. Swyddog GwyrddNi.**

Rhoddwyd cyflwyniad ar brosiectau GwyrddNi. Nodwyd bod y grwp wedi cynal pedwar sesiwn cyhoeddus a bod 50 unigolyn wedi cofrestru ar y cychwyn a bod y nifer nawr wedi gostwng i 30 o aelodau. Nodwyd bod lleihad mewn niferoedd yn ddisgwyliedig a bod y nifer sydd yn parhau wedi ymrwymo i'r grwp yn newyddion cadarnhaol a positif. Nod ac amcan y prosiect yw tynnu sylw at argyfwng cynhesu byd eang a bod gwirfoddolwyr yn ystyried camau gallai ei cymryd yn lleol er cyfrannu at lleihad arllwys carbon.
Nodwyd gan y swyddog GwyrddNi mai cynllun y Loteri sydd, hyd yma, wedi ariannu'r prosiect GwyrddNi. Mae'r grant yn dod i ben diwedd Awst 2023 ac mae'r swyddog yn fawr obeithio bydd arian pellach yn cael ei rhyddhau er parhau gyda'r gwaith at y dyfodol.

Nodwyd bod cysylltiadau lleol yn allweddol bwysig i'r prosiect ac y byddai yn wych pe byddai yna gynydd mewn nifer sydd yn cymryd rhan ac yn gwirfoddoli yn y prosiect. Fel rhan ehangach o'r prosiect, mae teithiau cerdded a teithiau natur wedi ei trefnu. Yn ychwanegol, mae 'Gweithdy Trwsio' wedi ei drefnu sydd yn galluogi trigolion lleol i ddod ac offer i'r gweithdy gan obeithio bydd bosib ei drwsio.

Mae'r gwrp GwyrddNi yn edrych am brosiectau a fydd yn galluogi tynnu sylw at argyfwng cynhesu byd eang. Mae grwp ardal Llanberis yn awyddus iawn i adnabod lleoliad ac i osod hysbysfwrdd yn

lleol er tynnu sylw at ei gwaith ac er tynnu sylw at y cyfleon i ymaelodi gyda'r grwp a gwirfoddoli gyda'r prosiect.

Gofynwyd gan Gynghorydd am ddosbarthiad preswyl y rhai sydd yn rhan o grwp ardal Llanberis. Fe ofynwyd hefyd a oedd gwybodaeth ar gael ynglyn a nifer siaradwyr Cymraeg oedd yn rhan o'r grwp. Nododd y swyddog byddai yn casglu'r wybodaeth ac ei anfon at y Cyngor Cymuned maes o law.

Rhoddwyd diolch i'r swyddog gan y Cadeirydd am ei chyflwyniad gwerthfawr a diddorol.

**6 Cadarnhau Cofnodion:**

Gan eithrio dyddiad anghywir a fu wedi ei nodi ar y dudalen olaf o'r cofnodion draft cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fercher y 10fed Fai 2023 fel rhai cywir ac fe'i llofnodwyd gan y Cadeirydd. Cynnigwyd y cynnig gan Cyng. Iola Owen. Eilwyd y cynnig gan Cyng. Iwan Harding.

**7 Materion yn codi o'r cofnodion:**

- ***Castell Dolbadarn*** – Nodwyd bod bollard cyfyngu mynediad gyda cherbyd wedi ei osod gan berchennogion y tir. Croesawyd a diolchwyd am y gwaith hwn gan Gynghorywyr Fe fu i Gynghorydd ddatgan pryder enfawr bod plant ifanc yn gallu dringo drwy'r ffens ddiogelwch trwodd at ben mur y Castell. Ar adegau, roedd cerrig wedi cael ei gweld yn cael ei taflu sydd yn achosi cryn berygl ac yn creu difrod y adeilad hanesyddol.

  G***ofynnwyd bod y Clarc yn gohebu gyda Cadw gan ddatgan pryder y Cyngor Cymuned.***

- ***Y Fynwent –*** Adroddwyd gan Gadeirydd Pwyllgor Y Fynwent ar gyfarfod safle diweddar. Nodwyd sefyllfa argyfyngus Y Fynwent gyda llefydd claddedigaethau yn lleihau pob blwyddyn. Cyfeirwyd at adroddiad yn dilyn y cyfarfod. Gofynwyd am farn y Cyngor ar y tri safle a oedd wedi ei ystyried fel tir claddu estyngedig at y dyfodol. Argymhelliad y Cyngor oedd bod y tir nepell o'r Clwb Mynydda yn cael ei ystyried fel safle cyntaf.

  Gofynwyd bod y Clarc yn cysylltu gyda'r tir berchennog gan ofyn am gyfarfod ar y safle pe bydd yna fodd ystyried defnydd y tir fel mynwent estynedig. Byddai'r Cyng. Gwilym Evans a Cyng. Iola Owen yn mynychu'r cyfarfod. Bydd y Cyng. Iola Owen yn hysbysu'r Clarc o enw a manylion cyswllt perchennog y tir.

  ***Cynnigwyd y cynnig gan Cyng. Kevin Morris Jones. Eilwyd y cynnig gan Cyng. Louise Price.***

- ***Cyfarfod yn Is Orsaf Trydan Pentir –*** Rhoddwyd cyflwyniad ar lwyddiant y cyfarfod gan y Cyng. Emlyn Bayliss. Tynnwyd sylw at nodiadau y cyfarfod a oedd eisoes wedi ei dosbarth i Gynghorwyr. Roedd y Cynghorwyr a fu wedi mynychu wedi cael budd enfawr o'r cyfarfod ac wedi cael gwybodaeth defnyddiol ynglyn a rhaglen waith y prosiect at y dyfodol. Cyfeirwyd at gynllun a oedd wedi ei arddangos i Gynghorwyr yn y cyfarfod ac bod y cynllun (ar ddull map wedi ei argraffu) wedi dangos yn glir iawn beth oedd sefyllfa mwyaf diweddar ar y gwaith sydd wedi ei gwblhau. Roedd y Cynghorwyr wedi argymell fod Grid Cenedlaethol yn rhoi'r wybodaeth sydd ar ei cynllun ar safle we fel bod y cyhoedd yn gweld faint o'r gwaith sydd bellach wedi ei gwblhau.

**8 Materion a godwyd gan Aelodau:**

***Gwesty Dolbadarn*** – Adroddwyd bod pryderon enfawr yn codi gan drigolion lleol oherwydd camymddwyn difrifol ar y safle ar rhai adegau. Nodwyd bod yr Heddlu wedi ymweld unwaith yn rhagor er cynorthwyo gyda sefyllfa anodd iawn ar y safle. Nodwyd bod y sefyllfa wedi newid yn sylweddol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae trafferthion a ddigwydd ar y safle yn ganol nos yn achosi pryderon enfawr i drigolion sydd yn byw nepell o'r gwesty. Roedd Cynghorwyr yn bryderus iawn na fod unrhyw wybodaeth ar gael am unigolion sydd yn breswyl yno. Nodwyd bod y Cynghorydd Kim Jones wedi cwrdd a heddwas lleol yn ddiweddar er trafod y sefyllfa. Nodwyd

bod yr Heddlu yn ymwybodol o rhai materion ond ar y cyfan, nid oes fawr allai'r Heddlu ei wneud.

Pan cafwyd caniatad gwreiddiol nodwyd mai trefnaint dros dro byddai darparu lle preswyl i unigolion bregus am gyfnod byr. Pwysleiswyd yr angen i ddallt yn gywir beth yw statws presennol y caniatad ac y defnydd cyfredol a wnaethpwyd o'r gwesty. Nodwyd gan Gynghorydd bod Cyngor Gwynedd yn awyddus i gadw'r safle fel mae yn bresennol oherwydd sefyllfa argyfyngus digartrefedd yng Ngwynedd.

Cynnigwyd bod y Cyngor Cymuned yn gwahodd perchennog Gwesty Dolbadarn i gydarfod o'r Cyngor Cymued ym mis Gorffennaf.

***Cynnigwyd y cynnig gan Cyng. Emlyn Baylis. Eilwyd y cynnig gan Cyng. Kevin Jones. (Bydd y Cyng. Heather Jones yn anfon manylion perchennog y gwesty at sylw'r Clarc.)***

- ***Llyn Padarn*** – Nodwyd pryder gan y Cyng. Gwilym Evans ynglyn a cynydd sylweddol mewn gweithgareddau chwaraeon dwr ar Lyn Padarn yn enwedig yn ystod Gwyl y Banc diwethaf ac yn benodol ar ochr Gilfach Ddu o'r llyn. Nodwyd gan y Cynghorydd bod y sefyllfa yn dorcalonus oherwydd niferoedd sylweddol oedd wedi ymweld a'r safle. Nodwyd bod y llyn yn adnodd pwysig ond bod pryder ynglyn a gor ddefnydd. Adroddwyd bod y llyn fel parc gweithgareddau a nid llyn naturiol. Roedd cryn bryder yn cael ei ddatgan ynglyn a cynydd sylweddol mewn nifer ymwelwyr a gormod o weithgareddau ar y dwr.

  Trafodwyd codi ffi ar geufadwyr a rhai a fydd yn cymryd rhan mewn mathau o weithgareddau dwr eraill. Gofynwyd bod y Clarc yn gohebu gyda Chyngor Gwynedd gan ofyn iddynt ystyried codi ffi gweithgareddau dwr ar unigolion a bod unrhyw incwm yn cael ei glustnodi ar gyfer penodi Warden ychwanegol yn Parc Padarn.

  ***Gweithred – Clarc i ohebu gyda Cyngor Gwynedd yn unol a chyfarwyddyd y Cyngor Cymuned.***

- ***Parcio ger Siop y 'Spar'*** – Fe ddatgan pryder gan y Cyng. Louise Price ynglyn a parcio anghyfrifol ac afreolus tu allan i siop y 'Spar' yn y pentref. Roedd problemau traffic yn creu perygl ac anhwylustod i gerddwyr a gyrrwyr cyfrifol. Mae cerbydau yn parcio ar y palmant, ar y llinellau melyn dwbl ac ar fynedfeydd a fu wedi ei neilltuo ar gyfer mynediad gyda cherbyd. Roedd bysus a loriau yn cael trafferthion diddiwedd tramwyo ar hyd y brifffordd.

  Nodwyd na fod yn bosib cyflwyno dirwyon cosb ar y safle parcio dros dro sydd wrth y siop ac na fod hawl gan y Cyngor i osod arwyddion ar y safle gan bod yr eiddo mewn perchenogaeth preifat.

  Cynigwyd bod y Cyngor Cymuned yn gohebu gyda cwmni 'Spar' yn nodi pryderon.

  ***Cynnigwyd y cynnig gan Cyng. Kim Jones. Eilwyd y cynnig gan Cyng. Nia Jones. (Bydd y Cyng Heather Jones yn anfon manylion rheolwr y siop at sylw'r Clarc.)***

- ***Maes Parcio 'Arfon' (ddim ar yr agenda) –*** Nodwyd bod rhwystr cyfyngu uchder cerbyd i'r maes parcio wedi ei gloi ar agor ac felly nid oes cyfyngiad ar uchder gerbydau a allai barcio ar y safle. Nodwyd pryderon bod cerbydau Camperfans enfawr yn parciuo ar y safle ac yn cyfyngu ar y nifer llefydd parcio sydd ar gael i geir ac hefyd yn amharu ar llif traffic drwy'r maes parcio.

  ***Gweithred –Yr Aelod Lleol Etholedig sef y Cyng. Kim Jones i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd yn gofyn iddynt gau y rhwystr yn unol a chais y Cyngor Cymuned.***

- ***Parcio UTMB (Ultra Trail Marathon)*** – Nodwyd pryder ynglyn a ffi sylweddol roedd y cwmni yn ei godi ar barcio i gystadleuwyr eleni. Oherwydd y gost uchel roedd rhan fwyaf o'r cystadleuwyr yn parcio mewn maesydd parcio cyhoeddus a oedd, mewn twrn, yn lleihau nifer llefydd parcio i ymwelwyr eraill a pobl lleol.

  Nodwyd pryder gan Gynghorwyr bod Cyngor Gwynedd yn caniatau gormod ddigwyddiadau yn Llanberis ac na fod cyfyngiad ar y nifer a fyddai yn gallu cystadlu mewn digwyddiad. Nodwyd yn

sgil y digwyddiad UTMB na fod yna unrhyw safle parcio bysys ar gael yn lleol gan bod tir yn Gilfach Ddu a fydd fel rheol ar gyfer parcio bysus wedi ei rentio i gwmni UTMB am y penwythnos.

Nodwyd gan un Gynghorydd y bod yna nifer fawr yn ymweld, ac efallai bod anhawsterau yn codi ar adegau ond fe roedd busnesau lleol yn fudd o'r digwyddiad. Yn ol un Cynghorydd roedd y buddion i fusnesau lleolyn sylweddol ac wedi ei croesawy. Roedd digwyddiadau o'r fath gyda buddion economaidd sylweddol i'r ardal.

Cafwyd pryderon pellach i'w nodi gan Gynghorydd ynglyn a safle Gilfach Ddu a hyn gan na fod llefydd parcio ar gael i'r rhai a fyddai yn ymweld er mwynhau teithio ar tren bach y llyn.

***Cynnigwyd bod y Cyngor Cymuned yn cysylltu gyda Chyngor Gwynedd yn gofyn iddynt sicrhau bod tocynnau pario yn cael ei gynnwys oddi fewn cost mynediad y ras.***

***Cynnigwyd y cynnig gan Cyng. Louise Price. Eilwyd y cynnig gan Cyng. Gwilym Evans.***

**9 Gohebiaeth:**

a) Llythyr gan Cyngor Gwynedd yn nodi bydd Llwybr Cyhoeddus Rhif 127 ar gau ar adegau er hwyluso gweithgaredd ffilmio.

b) Gohebiaeth yn tynnu sylw at ddigwyddad 'Cwrdd ac Anghenion Cymunedol Yng Nghymru' ar y 12fed Gorffennaf 2023 10.00 hyd at 13.00. Gwybodaeth pellach ar ei safle we.

c) Llythyr gan Eisteddfod Llyn ac Eifionydd yn diolch i Gyngor Cymuned Llanberis am eu cyfraniad i gronfa'r Eisteddfod eleni.

d) Llythyr gan Cyngor Dinesig Bangor yn gwahodd cynrychiolaeth o Gyngor Cymuned Llanberis i seremoni Sul Dinesig Bangor ar yr 16eg Gorffennaf 2023. Bydd angen i Gynghorwyr sydd yn bwriadu mynychu hysbysebu Cyngor Dinesig Bangor cyn y 30ain Mehefin 2023.

e) Llythyr gan Reolydd Pensiynnau yn cadarnhau bod Cyngor Cymuned Llanberis wedi cwblhau ailddatganiad cydymffurfio a Rheolydd Pensiynnau dan y Ddeddf Pensiynnau 2008.

**10 Cynllunio**

**C23/0440/15/LL –** Newid defnydd o ddefnydd A1 i Ddefnydd A3 gan gynnwys man newidaidau i gynnwys newid ramp i ardal patio i flaen yr adeilad ac gosod arwydd newydd heb ei oleuo ac gosod ramp newydd i gefn yr adeilad. Cyfeiriad yw 41b Stryd Fawr, Llanberis.

***Dim sylw.***

**NP3/15/180L –** Gosod tanc disel 5,000 lityr a ffens bren a phorth estynedig. Tir ym maes parcio uchaf ger gorsaf rheilffordd Yr Wyddfa.

***Dim sylw.***

**11 Materion Ariannol:**

Nodwyd bod y siec a dderbyniwyd am y swm £250 gan Awdurdod Yr Heddlu yn parhau yn cyfrif y Cyngor Cymuned. Mae'r arian wedi ei neilltuo ar gyfer y Clwb Ieuenctid lleol. Oherwydd na fod gan y Clwb Ieuenctid gyfrif banc nid yw yn bosib trosglwyddo'r arian iddynt.

Gofynwyd bod Y Ganolfan yn ystyried derbyn yr arian gan y Cyngor Cymuned ar ran y Clwb Ieuenctid fel na fod yr arian yn parhau oddi fewn cyfrif y Cyngor Cymuned.

Nodwyd bod adroddiad archwilwyr mewnol wedi ei dderbyn ac bod cadarnhad wedi ei dderbyn bod y Cyngor Cymuned yn gweithredu yn unol a chyfarwyddiadau statudol.

Nodwyd yn yr adroddiad bod yna angen i'r Cyngor Cymuned gynnig cyfarfodydd drwy ddull 'Zoom' fel bydd yn bosib i'r cyhoedd glywed trafodaethau'r Cyngor yn ei cyfarfrod. Nodwyd hefyd bod angen i'r Cyngor Cymuned gynnal cyfarfodydd yn agored gan bod yna hawl gan y cyhoedd i fynychu cyfarfodydd a holi y Cyngor ar faterion dilys.

***Yn y Banc ar yr 23ain Mai 2023***

**Cyfrif Cyfredol**: £48,892.79

**Cyfrif Cadw**: £66.96

***Derbyniwyd rhwng 28 Ebrill 2023 a 28 Mai 2023 - £27, 211.78.***

**11a) Cadarnhawyd y taliadau canlynol:**

| | | |
|---|---|---|
| I. | 202820 | Eric Baylis Glanhau Cysgodfannau a Garddio £105.00 |
| II. | 202821 | Un Llias Cymru Hyfforddiant i 5 (2 am ddim) £114.00 |
| III. | 202822 | Gwyn Thomas Trwsio gwaith coed Cae Chwarae UEFA £72,00 |
| IV. | 202823 | Dei Tomos pecyn o fagnets i'r Hysbysfwrdd £11.50 |
| V. | 202824 | HMRC Treth Incwm Clerc (3 mis) £264,00 |
| VI. | 202825 | Dei Tomos Cyflog Clerc (3 mis) £1055.75 |

Cyfanswm Gwariant = **£1622.25**

Arian a dderbyniwyd rhwng 29 Ebrill a 28 Mai

| | | |
|---|---|---|
| I. | 10 Mai | Claddu Llwch HG £225.00 |
| II. | 16 Mai | Gosod Wedge WMG £100.00<br>Codi carreg G & RJ £175.00<br>Ail godi carreg E & MJ £175.00 |

Cyfanswm Derbyniadau **£675.00**

***Cynnigwyd bod y manylion yn gywir ac awdurdodwyd y taliadau gan Cyng. Rhys ap Gwilym. Eilwyd y cynnig gan Cyng. Helen Sharp.***

**12 Llwybrau Cyhoeddus a Mynwent:**

Cadarnhawyd bod coeden wedi torri a grwych wedi ei docio ger Bron Eryri.

Cadarnhawyd bydd gwair yr hen Fynwent yn cael ei dorri unai ar ddiwedd mis Mehefin neu mor gynner a phosib dechrau mis Gorffennaf. Bydd y Clarc cyfredol yn cysylltu gyda chontractwr er gwneud y trefniadau priodol.

Nodwyd fod Pontbren ger y llyn yn ardal Afon Goch wedi dirywio yn sylweddol. Gofynwyd bod y Clarc yn tynnu sylw Cyngor Gwynedd at y diffygion yn y bont.

***Gweithred – Clarc i ohebu gyda Cyngor Gwynedd ynglyn a diffygion yn y pontbren yn unol a chyfarwyddyd y Cyngor Cymuned.***

**12 Cyrff Allannol:**

Dim materion i'w adrodd arnynt.

**13 *Sylwadau ar 'Facebook' (ddim ar yr agenda)***

Nodwyd siom a chonsyrn gan Gynghorwyr bod negeseuon negyddol yn ymddangos ar dudalennau 'Facebook'a hyn yn barnu gwaith Cynghorwyr. Nodwyd anhecwch a diffyg parch drwy fath sylwadau ac atgoffwyd bod pob cyfle i rhai sydd yn anfodlon gyda gwaith y Cyngor ddod i gyflwyno eu sylwadau ger bron y Cyngor Cymuned.

**12 Dyddiad Cyfarfod Nesaf:**

Noder dyddiad y cyfarfod nesaf ar y 12fed Gorffennaf 2023 am 19.00 yn Y Ganolfan, Llanberis.
Daeth y cyfarfod i ben am 21.05.